



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llanharan

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Llanharan yn hapus yn yr ysgol ac yn mwynhau mynd yno bob dydd. Maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da, ac yn ffyddiog y bydd oedolion bob amser yn eu cynorthwyo'n briodol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n fregus a'r rhai ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd boddhaol yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Lles disgyblion sydd wrth wraidd yr ysgol. Mae staff yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn feddylgar, yn gynhwysol ac yn gefnogol ar gyfer yr holl ddisgyblion a'u teuluoedd. Ceir perthnasoedd cryf ar draws yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd islaw'r lefel ddisgwyliedig, gydag ychydig iawn ohonynt gryn dipyn islaw'r lefel ddisgwyliedig. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn gwneud cynnydd boddhaol yn y rhan fwyaf o agweddau ar ddysgu, gan gynnwys medrau darllen a digidol, a'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso'u dysgu ar draws y cwricwlwm ar yr un lefel â mewn gwersi Saesneg a mathemateg penodol. Nid yw defnydd disgyblion o'r Gymraeg, a'u medrau ysgrifennu mewn Saesneg, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn i arweinwyr, staff a disgyblion o ran dylunio'u cwricwlwm ysgol i gydfynd â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru ac adlewyrchu'r amgylchedd a'r gymuned y maent yn byw ynddi. Mae arweinwyr yn adolygu gwaith yr ysgol yn rheolaidd yn erbyn ei blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, nid yw gweithgarwch monitro arweinwyr bob amser yn amlygu meysydd addysgu a dysgu pwysig sydd angen eu gwella, er enghraifft pa mor effeithiol y mae athrawon yn cynllunio, a sut mae adborth yn helpu disgyblion i wella'u gwaith a gwneud y cynnydd disgwyliedig wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Argymhellion

- A1 Datblygu ymagweddau cyson a thrylwyr at fonitro sy'n canolbwyntio'n llawn ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- A2 Sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac adborth disgyblion
- A3 Datblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod gwybodaeth a medrau yn adeiladu'n raddol o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6
- A4 Gwella safonau ysgrifennu
- A5 Gwella medrau llafaredd Cymraeg disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Llanharan
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	Anenwadol
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	162
Disgyblion o oed ysgol statudol	149
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	26
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%)	37.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%)	38.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2014
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	02/06/2014
Dyddiad dechrau'r arolygiad	27/03/2023

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.